Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb

*The Welsh language belongs to all of us*

# Ymateb FForwm Iaith Rhondda Cynon Taf i Strategaeth Addysg Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

1. Roedd teimlad bod y WESP ar gyfer 2017-2020 yn cynnig cyfle i gyflwyno mesurau cadarnhaol i gefnogi'r weledigaeth genedlaethol sydd gan Lywodraeth Cymru i dyfu addysg cyfrwng Cymraeg a chreu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. A oes modd i'r WESP ddatgan bod Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymrwymedig i weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi'r weledigaeth. Nid yw tôn y ddogfen ddrafft yn cyfleu'r neges bod y Cyngor yn frwd i weithredu'n bwrpasol i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Dylai'r WESP adlewyrchu'r angen i flaengynllunio'n bwrpasol i gynyddu darpariaeth a, lle'n briodol, symbylu twf yn y galw er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg.

2. Angen gosod targedau cyrhaeddadwy ond pell gyrhaeddol er mwyn sicrhau twf

3. Mae'r ddogfen ddrafft yn cyfeirio yn ôl at fuddsoddiad mewn ysgolion i adeiladu / adnewyddu ysgolion a chynyddu capasiti. Does dim sylw gyfatebol at y dyfodol nac at gynlluniau i agor ysgolion a chreu capasiti newydd, wedi'r cyfan dogfen yn edrych tua'r dyfodol yw hi. Does dim cyfeiriad at fylchau yn y ddarpariaeth mewn llefydd fel Aberpennar, canol y Rhondda, Taf Elai. Mae'r bylchau hyn yn golygu nad yw darpariaeth gyfredol yn adlewyrchu demograffig yr ardal. Bu datblygiad ysgolion yn yr ardal ar hap i raddau yn y gorffennol (ymateb i ysgolion Saesneg yn cau / symud i adeiladau newydd). Dylid bod yn fwy strategol a chynllunio ysgolion newydd i sicrhau bod ysgolion Cymraeg o fewn cyrraedd rhesymol i bawb bawb ac ymateb I'r newid pwyslais o fewn y Llywodraeth o greu'r galw yn hytach nag ymateb iddo

4. Dylid sicrhau bod manteision addysg Gymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u marchnata ar bob lefel. I'r cyhoedd ac hefyd i swyddogion y Cyngor.

5. Addysg drochi / addysg i hwyrddyfodiaid. Dylid mynd ati yn bwrpasol i hyrwyddo'r cyfleoedd i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd sy'n symud i'r ardal. A yw cyfleoedd addysg Gymraeg yn cael eu cyflwyno yn yr un ffordd ag addysg Saesneg? Mae'n bosib y bod tuedd i gyfeirio teuluoedd at addysg Saesneg ond dylai fod addysg Gymraeg yn cael ei thrafod a'i chyflwyno ar yr un telerau gan amlinellu'r ddarpariaeth drochi sydd ar gael trwy'r consortiwm.

01443 40 75 70
www.menteriaith.cymru
menterrhondda.cynontaf
@menteriaithRhCT
Rhif elusen / charity no: 1053135
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol / Supported by The National Lottery®

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb

*The Welsh language belongs to all of us*

6. Mae'n hanfodol bod dilyniant ar hyd y cyfnodau addysg statudol ac i fewn i addysg ol-16 a thu hwnt. Mae'n rhaid bod y cynnig i ddisgyblion yn ddeniadol, a bod yr un opsiynau academaidd a galwedigaethol ar gael yn y ddwy iaith. Dylid sicrhau bod y llwybrau dilyniant hyn yn cael eu hyrwyddo i ddisgyblion ysgol fel eu bod yn deall y cyfleoedd i barhau i dderbyn addysg Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch.

7. Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae llwybrau gyrfaol yn hollbwysig fel ffordd o danlinellu pwysigrwydd y Gymraeg fel sgil yn y gweithle. Dylai hyn fod yn rhan o'r WESP gan adnabod y cyfrifoldeb ar ysgolion ac asiantaethau eraill i sicrhau cyfleoedd profiad gwaith, hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd.

8. Mae angen rhannu'r wybodaeth rhwng y Strategaeth Addysg a'r Strategaeth hybu wrth drafod addysg blynyddoedd cynnar, clybiau a chynlluniau cymdeithasol ar gyfer disgyblion Ysgol.

9. Mae angen dangos niferoedd plant sydd mewn addysg ac o fewn muriau yr ysgolion yn gyfan gwbl. Lle nodir niferoedd mewn addysg statudol o fewn ysgolion Cynradd y Sir a chapsiti'r ysgolion hynny, mae angen sicrhau bod y ffigyrau yma'n adlewyrchu gwir gapasiti'r ysgolion trwy gynnwys niferoedd mewn addysg anstatudol (Meithrin). Mae hyn hefyd yn wir am yr ysgolion cyfun gyda myfyrwyr ôl 16.

10. Er mai 18% o rieni ymatebodd i'r holiadur dewis Iaith, dylid trin y canlyniad yma fel darlun o sefyllfa'r Sir. Mae'n gwbl anghywir i honni bod y canlyniadau yn ffarfio'r Gymraeg dim ond oherwydd bod niferoedd isel wedi ymateb. Mae meysydd ymchwil ym cymryd canlyniadau fel 'snapshot' o wir sefyllfa'r Sir, beth bynnag bo'r niferoedd sydd wedi ymateb.

11. Does dim digon o leoedd ar Flying Start, 96 allan o 716 (t.9), a gormod o ddisgwyl i blant ifainc iawn deithio. Mae angen gosod targed twf mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg o fewn pellter cyfleus I rieni a gweithredu ar argymhelliad I newid amseroedd sesiynau Cymraeg er mwyn codi'r niferoedd.

01443 40 75 70
www.menteriaith.cymru
menterrhondda.cynontaf
@menteriaithRhCT
Rhif elusen / charity no: 1053135
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Supported by The National Lottery®